

# ARCHWILIO GWAITH OXFAM

## PECYN ATHRAWON

### Cynnwys

Cyflwyniad	t.1
Trosolwg o'r adnoddau: Amlinelliad, amcanion a deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiadau â'r cwricwlwm	t.2
Gweithgaredd 1: Pawb i fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu	t.3
Gweithgaredd 2: Sôn am ein bywydau	t.3
Gweithgaredd 3: Beth a fyddai'n digwydd pe ... ?	t.4
Gweithgaredd 4: Cyflwyniadau	t.5
Gweithgaredd 5: Pe byddwn yn gweithio gydag Oxfam ...	t.5-6
Gweithgaredd 6: Beth y gallaf ei wneud?	t.6
Rhagor o syniadau ac adnoddau	t.6-7
Tafleni adnoddau a gweithgareddau	t.8-17

### Cyflwyniad

Mae Oxfam yn fudiad byd-eang o filiynau o bobl sy'n rhannu'r gred nad yw tlodi yn anochel mewn byd sy'n llawn adnoddau, a'i fod yn anghyfiawnder y gellir ac y mae'n rhaid ei oresgyn. Mewn prin 15 mlynedd, mae tlodi eithafol wedi cael ei haneru. 15 mlynedd arall, a gallwn gael gwared arno am byth.

Ym mlwyddyn ariannol 2018-19, helpodd Oxfam Prydain Fawr bron i 13 miliwn o bobl i ymladd tlodi<sup>1</sup>. O hawliau menywod i ddŵr, o gymorth brys i addysg, mae'r holl faterion yr ydym yn mynd i'r afael â nhw yn canolbwyntio ar alluogi pobl i greu gwell bywydau iddynt eu hunain. Rydym yn helpu mewn nifer o ffyrdd gwahanol – o ddatblygu technolegau glanweithdra arloesol, i hyfforddi ffermwyr i dyfu cnydau, i godi lleisiau'r rhai y mae tlodi ac anghyfiawnder yn effeithio arnynt. Rydym yn ymateb yn gyflym mewn argyfyngau, ac yn aros i helpu pobl i ailadeiladu eu bywydau. Rydym yn gweithio ar brosiectau hirdymor gyda chymunedau sy'n benderfynol o lunio gwell dyfodol iddynt eu hunain. Ac rydym yn ymgyrchu dros newid gwirioneddol, parhaol i drechu tlodi am byth.

Mae'r gweithgareddau hyn, y mae iddynt gyswllt â Daearyddiaeth, Cymraeg a dinasyddiaeth, yn darparu ffordd hwyliog o ddatblygu sgiliau siarad a gwranddo a phrocio meddyliau disgyblion 7-14 oed. Bydd y dysgwyr yn ystyried ein hanghenion sylfaenol mewn bywyd ac yn archwilio sut y mae cymunedau ledled y byd yn gweithio gydag Oxfam i fynd i'r afael â thlodi a sicrhau bod pawb yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu.



Cydnabyddiaeth y llun: Abbie Trayler-Smith

<sup>1</sup> [www.oxfam.org.uk/what-we-do/about-us/plans-reports-and-policies/annual-report-and-accounts-2019](http://www.oxfam.org.uk/what-we-do/about-us/plans-reports-and-policies/annual-report-and-accounts-2019)

## Trosolwg o'r adnoddau

### Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn rhoi ystyriaeth i'n hanghenion sylfaenol mewn bywyd, ac yn meddwl yn feirniadol am ganlyniadau posibl methu diwallu'r anghenion hyn. Yna byddant yn dysgu sut y mae cymunedau ledled y byd yn gweithio gyda sefydliadau megis Oxfam i sicrhau bod gan bawb fynediad at yr anghenion dynol sylfaenol hyn. Trwy actio yn rôl cyflogeion sefydliad partner lleol sy'n gweithio gydag Oxfam, bydd y dysgwyr yn ymchwilio i gamau posibl y gellid eu cymryd mewn ymateb i drychinebau megis daeargrynfeydd a sychder. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn archwilio pa gamau y gallent eu cymryd eu hunain i helpu i ddod â thlodi i ben.

### Amcanion dysgu

- Gallu gwrando ar eraill ac ymateb iddynt, a chymryd rhan mewn trafodaethau.
- Cydnabod bod angen i ni i gyd fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu, a nodi canlyniadau posibl methu diwallu'r anghenion sylfaenol hyn.
- Datblygu dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae cymunedau'n gweithio gydag Oxfam a sefydliadau partner i frwydro yn erbyn tlodi a sicrhau bod pawb yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu.
- Bod yn ymwybodol o rai ffyrdd y gallai dysgwyr weithredu i helpu i ddod â thlodi i ben.

### Deilliannau dysgu

Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- trafod eu syniadau am bwysigrwydd bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu.
- defnyddio datganiadau 'Beth petai ...?' i feddwl yn feirniadol am rai canlyniadau posibl methu diwallu ein hanghenion sylfaenol.
- actio mewn rôl i archwilio sut y mae rhai pobl a chymunedau, gyda chymorth gan Oxfam a sefydliadau partner, bellach yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu.
- ystyried camau posibl y gallent eu cymryd eu hunain i helpu i ddod â thlodi i ben.

### Cwestiynau allweddol

- Pa debygrwydd a gwahaniaethau sydd rhwng bywydau'r bobl hyn a'ch bywyd eich hun?
- Beth yr ydych yn meddwl a fyddai'n digwydd pe byddai ...? Pam yr ydych yn meddwl hyn? Sut y byddech, o bosibl, yn teimlo?
- Sut y byddech yn cefnogi pobl i baratoi ar gyfer effeithiau trychinebau megis sychder neu ddaeargryn, ac i ymdopi â'r effeithiau hyn?
- Sut y mae Oxfam yn brwydro yn erbyn tlodi ac yn rhoi cymorth i bobl fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu?
- Pa gamau gweithredu y gallwn i eu cymryd?

### Dolenni i'r cwricwlwm

#### Lloegr

- Saesneg CA2 a CA3
- Iaith lafar
- Ysgrifennu – geirfa, gramadeg ac atalnodi
- Dinasyddiaeth CA3

#### Yr Alban

- Llythrennedd
- Gwrando a siarad
- Ysgrifennu
- Astudiaethau Cymdeithasol
- Pobl mewn cymdeithas, economi a busnes

#### Cymru

- Llythrennedd CA2 a CA3
- Llafaredd
- Ysgrifennu
- Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang: Dewisiadau a phenderfyniadau
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol: Dinasyddiaeth weithredol



## Gweithgaredd 1: *Pawb i fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu* (20 mun+)

- Dywedwch wrth y dysgwyr y byddant yn gwyllo fideo byr a fydd yn dangos pobl o bob cwr o'r byd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Esboniwch y dylai'r dysgwyr wyllo'r ffilm yn unig, a pheidio â phoeni am gofio unrhyw fanylion am y tro.
- Dangoswch y clip fideo byr, [Everybody eat, drink, earn and learn](#). Efallai yr hoffech ganiatáu ychydig bach o amser i'r dysgwyr drafod eu meddyliau cychwynnol am y ffilm, a hynny naill ai â phartner neu â'r dosbarth cyfan.
- Eglurwch 'nawr eich bod yn mynd i ddangos y fideo eto, ac yr hoffech i'r dysgwyr, y tro hwn, feddwl am y cwestiynau canlynol:
  - Beth yr ydych yn gweld pobl yn ei wneud?
  - A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau hyn?
  - Beth oedd yr un fath ym mywydau'r bobl hyn â'ch bywyd eich hun? Beth oedd yn wahanol?
  - Ym mha wledydd yr ydych yn meddwl y gallai'r bobl hyn fod? Pam yr ydych yn meddwl hyn?

Gall y cwestiwn olaf hwn dynnu sylw at dybiau a rhagdybiaethau cyfredol y dysgwyr. Er enghraifft, "rhaid mai gwlad yn Affrica yw hon gan fod y bobl yn edrych yn dlawd". Os yn bosibl, ceisiwch herio unrhyw stereoteipio ac annog y dysgwyr i feddwl o le y mae eu syniadau'n dod. Darperir rhestr o'r gwledydd a ddangosir yn y ffilm yn Gwybodaeth am y gwledydd (Taflen adnoddau 1).

- Ar ffurf dosbarth cyfan, trafodwch syniadau'r dysgwyr am y cwestiynau uchod. Tynnwch sylw at y ffaith bod pedwar grŵp o weithgareddau yn cael eu dangos yn y ffilm: bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu. Er mwyn i ni ffynnu mewn bywyd, mae ar bobl angen y pethau hyn i gyd. Fodd bynnag, gall lleoliad a chyd-destun daearyddol olygu ein bod yn diwallu'r anghenion hyn mewn ffyrdd gwahanol.
- Esboniwch fod y dysgwyr yn mynd i fod yn meddwl mwy am yr hyn y mae'n ei olygu i fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu, a hynny yn ein bywydau ni ac ym mywydau pobl eraill ledled y byd.

## Gweithgaredd 2: *Sôn am ein bywydau* (20 mun+)

- Trefnwch y dysgwyr fel eu bod yn sefyll mewn dau gylch consentrig, gyda'r dysgwyr yn y cylch allanol yn wynebu'r dysgwyr yn y cylch mewnol.
- Esboniwch eich bod yn mynd i roi cyfres o ddechrau brawddegau i'r dysgwyr. Yn achos pob dechrau brawddeg, dylai'r dysgwyr gymryd eu tro gyda'r person gyferbyn â nhw yn ailadrodd a chwblhau'r frawddeg. Rhannwch y dechreuadau brawddegau gwahanol a ddarperir isod (ac ar sleid 2). Gofynnwch i'r dysgwyr yn y cylch allanol symud ymlaen glocwedd unwaith ar ôl pob dechrau brawddeg fel eu bod yn wynebu person gwahanol (hynny yw, bydd pob dysgwr yn cael cyfle i siarad â chyfanswm o bedwar person arall yn y dosbarth). Noder: Os yw amser yn caniatáu, efallai yr hoffech roi cyfle i'r dysgwyr rannu eu syniadau ar gyfer pob brawddeg â mwy nag un person.
  - Rwy'n hoffi bwyta ...
  - Mae arnom angen dŵr ar gyfer ...
  - Pan fyddaf yn hŷn, hoffwn fod yn ...
  - Rwy'n hoffi dysgu am ...
- Caniatewch ychydig o amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dosbarth cyfan gynnal trafodaeth. Gwahoddwch y dysgwyr i rannu ffaith y maent wedi ei dysgu am rywun arall yn y dosbarth.

Gofynnwch i'r dysgwyr a oes gan bob un ohonom ddiddordebau tebyg ac a ydym yn hoffi'r un pethau. Tynnwch sylw at y ffaith y gallai fod yn wir ein bod yn hoffi a chasáu rhai o'r un pethau ag eraill, ond na fydd hyn, o anghenraid, yn wir am bethau eraill. Datblygwch empathi'r dysgwyr at eraill trwy dynnu sylw at y ffaith na fydd pobl eraill, o reidrwydd, yn hoffi rhywbeth dim ond am ein bod ni yn ei hoffi.

### Gweithgaredd 3: Beth a fyddai'n digwydd pe ... ? (30 munud)

- Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn meddwl bod pawb yn y byd yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu. Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu syniadau, ac anogwch nhw i roi rhesymau dros/tystiolaeth ar gyfer y rhain. Defnyddiwch sleid 3 i egluro bod mwy na 750 miliwn o bobl (tua un rhan o ddeg o boblogaeth y byd) yn byw mewn tlodi eithafol. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt y pethau y mae arnynt eu hangen i fyw'n ddiogel ac mewn iechyd da – i fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu. Darperir gwybodaeth ychwanegol yn nodiadau'r sleidiau.
- Dangoswch sleid 4, a gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn meddwl bod pawb yn y Deyrnas Unedig yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu. Defnyddiwch y cwestiwn hwn i dynnu sylw at y ffaith bod llawer o bobl yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn tlodi cymharol ac yn ei chael yn anodd diwallu rhai o'r anghenion sylfaenol hyn, er enghraifft bwyta deiet iach. Gweler nodiadau'r sleidiau am ychydig o wybodaeth gefndir i gefnogi trafodaeth ddyfnach â dysgwyr hŷn. Noder: Gan ei bod yn debygol y bydd tlodi'n effeithio'n uniongyrchol ar rai o'r dysgwyr, bydd angen arfer sensitifrwydd wrth drafod hyn.
- Esboniwch fod y dysgwyr 'nawr yn mynd i fod yn meddwl am ganlyniadau methu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhwch gopi o Beth a fyddai'n digwydd pe ... ? i bob grŵp. (Taflen gweithgaredd 1).
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y rhestr datganiadau a dychmygu sut y gallai'r digwyddiadau hyn effeithio ar eu bywydau. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod eu syniadau yn eu grwpiau ac yna rannu eu hymatebion â'r dosbarth cyfan.
- Esboniwch fod y dysgwyr 'nawr yn mynd i weithio ar eu pen eu hunain i gyfleu eu meddyliau am un o'r datganiadau Beth a fyddai'n digwydd pe byddai ... ?
- Rhwch gopi o Meddwl am y canlyniadau (Taflen gweithgaredd 2) i bob dysgwr. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r datganiadau Beth a fyddai'n digwydd pe byddai ... ?, a chwblhau'r frawddeg yn y blwch ar y daflen gan ddefnyddio'r datganiad hwn.
- 'Nawr gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu paragraff i ddangos beth y maent, o bosibl, yn ei feddwl a fyddai effeithiau'r digwyddiad hwn ar eu bywyd. Yn eu barn nhw, beth a allai fod yn effaith i'r canlyniadau hyn? Sut yr ydych yn meddwl y gallent fod yn teimlo? Anogwch y dysgwyr hefyd i geisio esbonio pam y maent yn meddwl y byddai hyn yn digwydd. Darperir banc geiriau i gynorthwyo'r dysgwyr gyda'u hysgrifennu.
- Gellid datblygu'r gweithgaredd hwn ymhellach trwy ofyn i'r dysgwyr feddwl am ddatganiadau cadarnhaol ar gyfer Beth a fyddai'n digwydd pe byddai ...?. Gweler Rhagor o syniadau ac adnoddau i gael awgrym ar gyfer gweithgaredd.
- Esboniwch y bydd y dysgwyr, yn y ddau weithgaredd nesaf, yn darganfod sut y mae cymunedau ledled y byd yn gweithio gydag Oxfam a sefydliadau partner i frwydro yn erbyn tlodi a sicrhau bod pawb yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu.



## Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr dynnu llun, yn lle ysgrifennu, i ddisgrifio'r hyn y maent yn ei feddwl a fyddai'n digwydd, a sut y byddent, o bosibl, yn teimlo.
- Gwneud pethau'n anos: Gallai'r dysgwyr mwy galluog ddefnyddio olwyn canlyniadau yn gymorth i feddwl yn feirniadol am ganlyniadau posibl y digwyddiadau hyn o ran bywydau pobl, ynghyd ag effaith y canlyniadau hyn. I gael rhagor o arweiniad ar ddefnyddio olwyn canlyniadau yn yr ystafell ddosbarth, gweler tudalen 14 o Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon gan Oxfam:  
[www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides](http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides)

## Gweithgaredd 4: Cyflwyniadau (30 mun)

- Esboniwch fod cymunedau ledled y byd yn gweithio gydag Oxfam i sicrhau bod pawb yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu. Defnyddiwch sleidiau 5 i 8 i rannu rhywfaint o wybodaeth am Oxfam a'i dri phrif faes gwaith: ymateb yn gyflym i argyfyngau, prosiectau datblygu tymor hwy, ac ymgyrchu dros newid parhaol i drechu tlodi am byth.
- Esboniwch y bydd y dysgwyr yn darganfod rhagor am rai o'r bobl a'r cymunedau sydd, gyda chymorth Oxfam, bellach yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o wyth, a dosbarthwch gopïau o'r wyth astudiaeth achos Pawb i fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu (a ddarperir ar daflenni Adnoddau 2 i 5) fel bod gan bob dysgwr yn y grŵp astudiaeth achos wahanol. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr wybodaeth yn eu hastudiaeth achos a cheisio cofio dwy neu dair ffaith am y person (neu un o'r bobl) a ddisgrifir. Darperir hefyd y delweddau a'r wybodaeth ategol o'r astudiaethau achos yn sleidiau 9-16 (ynghyd â chwestiynau posibl i ysgogi trafodaeth bellach am rai o achosion a chanlyniadau tlodi).
- Trefnwch y dysgwyr yn barau, a gofynnwch iddynt gymryd tro yn eu cyflwyno eu hunain i'w partner yn eu cymeriad. Os yw'r dysgwyr yn methu symud ymlaen, gallant gyfeirio at eu hastudiaeth achos, ond anogwch nhw i'w rhoi o'r neilltu eto cyn parhau i siarad.
- Yna gofynnwch i bob pâr ymuno â phâr arall yn ei grŵp a chymryd tro yn cyflwyno'r naill bartner a'r llall (yn eu cymeriad) i'r pâr arall. Os yw amser yn caniatáu, gallech ailadrodd y cam hwn fel bod pob pâr yn cael cyfle i siarad â pharau eraill yn ei grŵp o wyth.
- Trwy gyfrwng y broses hon, bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â rhesymau gwahanol dros pam na all pobl, efallai, fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu, er enghraifft newid yn yr hinsawdd, gwrthdaro, clefydau a thrychinebau. Byddant hefyd yn dysgu am ffyrdd y mae pobl wedi dod o hyd i atebion i'r problemau hyn, gyda chymorth Oxfam. Efallai yr hoffech orffen y gweithgaredd hwn trwy drafod rhai o'r problemau ac atebion hyn mewn gweithgaredd dosbarth cyfan.

## Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Trefnwch y dysgwyr yn barau, a rhowch gopi i bob pâr o un o'r astudiaethau achos Pawb i fwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar eu hastudiaeth achos gyda'u partner, a cheisio cofio rhai ffeithiau am y person hwn. Yna dylai pob pâr gyflwyno ei gymeriad i barau eraill yn y dosbarth.


## Gweithgaredd 5: Pe byddwn yn gweithio gydag Oxfam ... (20 mun+)

Noder: Mae'r gweithgaredd hwn yn fwy addas i'w ddefnyddio gyda dysgwyr mwy galluog neu hŷn (9-14 oed).

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar i chwech, a rhowch gopi i bob grŵp o Drought in Somaliland neu Earthquake in Indonesia (Taflenni adnoddau 6 a 7). Dywedwch fod angen i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn byw ac yn gweithio yn Somaliland neu Indonesia (darperir ffeithiau a mapiau defnyddiol yn y taflenni adnoddau). Esboniwch fod y dysgwyr yn gweithio i sefydliad Somaliaidd neu Indonesaidd sy'n gweithio mewn partneriaeth ag Oxfam i roi cymorth i gymunedau baratoi ar gyfer effeithiau trychinebau tebyg i sychder a daearyngrynfeydd, ac i fynd i'r afael â nhw.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr wybodaeth ar eu taflen adnoddau ac yna i drafod atebion posibl i'r problemau sy'n wynebu'r cymunedau. Anogwch y dysgwyr i ystyried atebion ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Efallai yr hoffech eu hatgoffa o ddull triphlyg Oxfam o weithio: ymateb yn gyflym i argyfyngau, prosiectau datblygu tymor hwy, ac ymgyrchu dros newid parhaol i drechu tlodi am byth.
- Gwahoddwch bob grŵp i gyflwyno ei syniadau i'r grŵp cyfan. Yna, yn fyr, dangoswch sleidiau sy'n dangos enghreifftiau o sut y mae cymunedau a sefydliadau partner wedi gweithio gydag Oxfam yn y ddwy wlad hyn i helpu i ddatrys y problemau hyn (sleidiau 17–26).
- Gan barhau i weithio yn eu rolau, gofynnwch i'r dysgwyr 'nawr werthuso eu datrysiadau eu hunain i'r problemau hyn, y rhai a awgrymwyd gan grwpiau eraill, ac atebion Oxfam. Yn eu grwpiau, dylai'r dysgwyr ddewis y ddau neu dri syniad y maent yn eu hoffi orau. Efallai yr hoffent restru manteision ac anfanteision pob un i'w helpu i ddod i benderfyniad.

## Gweithgaredd 6: Beth y gallaf ei wneud? (30 mun)

- Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi bod yn darganfod sut y mae Oxfam yn gweithio gydag eraill i frwydro yn erbyn tlodi a newid bywydau pobl er gwell, a hynny 'nawr ac yn y dyfodol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr am awgrymiadau ynghylch sut y gallent helpu i ddod â thlodi i ben, yn eu cymunedau eu hunain ac yn fyd-eang. Trafodwch syniadau'r dysgwyr. Efallai yr hoffech gofnodi'r rhain ar y bwrdd.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar, a rhowch gopi o'r Cardiau gweithredu (Taflen gweithgaredd 3) i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd, yn eu grwpiau, i raddio'r naw cam gweithredu awgrymedig ar ffurf diemwnt, yn ôl yr hyn y maent yn ei gredu yw'r cam 'gorau' iddynt ei gymryd eu hunain. Dylent roi'r cam gweithredu gorau ar y brig, ac yna res o'r ddau orau nesaf, yna rhes o dri, ac ati (gweler y diagram isod).



- Esboniwch mai mater i'r prawf i'w defnyddio i raddio, er cam gweithredu i'w gyflawni, gael. Mae un cerdyn wedi cael dysgwyr ddisodli rhai o'r camau gweithredu awgrymedig â'u syniad eu hunain, os hoffent wneud

dysgwyr yw penderfynu pa feini enghraifft pa mor hawdd yw neu faint o effaith y gallai ei ei adael yn wag er mwyn i'r

hynny.

- Gofynnwch i'r dysgwyr arddangos eu diemwntau a'u cylchredeg o amgylch y dosbarth er mwyn iddynt weld gwaith graddio'r grwpiau eraill, gan nodi unrhyw debygrwydd a gwahaniaethau. Caniatewch amser ar y diwedd i'r dysgwyr rannu a thrafod eu rhesymau dros eu dewisiadau.

### Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n anos: Yn lle defnyddio'r camau gweithredu a awgrymir yn Nhaflen gweithgaredd 3, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu syniadau eu hunain. Gallent gofnodi'r camau gweithredu hyn ar nodynnau gludiog ac yna eu graddio yn eu grwpiau.

### Rhagor o syniadau ac adnoddau

- Trefnwch i un o Lefarwyr Oxfam ddod i'ch ysgol i siarad am y gwaith y mae Oxfam yn ei wneud i newid bywydau trwy frwydro yn erbyn tlodi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: [www.oxfamapps.org.uk/speaker/](http://www.oxfamapps.org.uk/speaker/)

- Rhowch gymorth i'r dysgwyr gymryd rhan ym mhrosiect Neges mewn Llyfr Oxfam. Casglwch lyfrau ail-law i'w rhoi i siop Oxfam leol eich ysgol, ac ysgrifennwch lythyrau i ddweud wrth gwsmeriaid am waith Oxfam i drechu tlodi 'nawr ac am byth.

[www.oxfam.org.uk/education/resources/message-in-a-book](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/message-in-a-book)

- Trafodwch y pethau eraill y mae arnom eu 'hangen' er mwyn ffynnu yn ein bywyd, megis bod â chartref a phobl sydd â gofal amdanom. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y gwahaniaeth rhwng ein 'hanghenion' a'n 'dymuniadau'. Pa bethau y mae arnom eu gwir angen? Yn ein barn ni, pa bethau y mae gan bawb hawl iddynt? A ydych yn meddwl bod gan bawb fynediad at yr hawliau hyn? Edrychwch ar Hawliau Plant Oxfam, sef adnodd addysg (i blant 8-11 oed) sy'n cynnwys gweithgareddau creadigol i archwilio'r cwestiynau hyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

<https://www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/childrens-rights>

- Datblygwch Weithgaredd 2 trwy ofyn i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i greu fframiau rhewi i ddangos pobl yn bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu. Anogwch y dysgwyr i feddwl am agweddau gwahanol ar bob gweithgaredd. Er enghraifft, gallai bwyta hefyd ddangos pobl yn tyfu neu'n cynaeafu cnydau, neu'n coginio. Gallai yfed gynnwys gweithgareddau eraill y mae dŵr yn ofynnol ar eu cyfer, megis golchi, brwsio dannedd a dyfrhau planhigion. Gallai ennill cyflog ddangos pobl yn cyflawni tasgau gwahanol, tra gallai dysgu gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth megis ysgrifennu, darllen, chwarae gemau a llunio pethau.

Caniatewch amser i'r dysgwyr berfformio eu fframiau rhewi i eraill. Gofynnwch i'r dysgwyr eraill beth y maent yn ei feddwl sy'n digwydd ym mhob ffrâm rewi, ac anogwch nhw i ofyn cwestiynau i'w gilydd. Datblygwch y gweithgaredd ymhellach trwy dynnu lluniau o'r fframiau rhewi, argraffu'r delweddau, a gofyn i'r dysgwyr ychwanegu swigod lleferydd i ddangos yr hyn y gallai'r bobl a gynrychiolir fod yn ei ddweud, yn ei feddwl neu'n ei deimlo.

- Ymestynnwch Weithgaredd 3 trwy ofyn i'r dysgwyr feddwl am rai datganiadau cadarnhaol yn ateb i'r cwestiwn Beth a fyddai'n digwydd pe ... ? Er enghraifft: Beth a fyddai'n digwydd pe ...
  - ... gallech chi a'ch teulu fwyta tri phryd bwyd y dydd?
  - ... gallech gael dŵr glân o dap yn eich tŷ?

- o ... gallai eich rhieni fforddio eich anfon i'r ysgol?

'Nawr, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y canlyniadau posibl i'r digwyddiadau hyn. Defnyddiwch y gweithgaredd hwn i dynnu sylw at effeithiau cadarnhaol gallu bwyta, yfed, ennill cyflog a dysgu ar fywydau pobl.

- Defnyddiwch gadwyn pam-pam-pam i roi cymorth i'r dysgwyr mwy galluog neu hŷn feddwl yn feirniadol am resymau posibl pam nad yw rhai pobl yn gallu bwyta, yfed, ennill cyflog na dysgu. I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio'r gadwyn pam-pam-pam, gweler t.12 o Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ystafell ddosbarth: Canllaw i athrawon:

[www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides](http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides)

- Rhowch gynnig ar adnodd addysg Oxfam: Eich bywyd, Fy mywyd (ar gyfer plant 5-9 oed). Defnyddiwch y detholiad hwn o ffilmiau byrion a'r gweithgareddau trawsgwricwlaidd i annog y dysgwyr i feddwl am y tebygrwydd rhyngom, yn ogystal â pharchu ein gwahaniaethau.

[www.oxfam.org.uk/education/resources/your-life-my-life](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/your-life-my-life)

- Defnyddiwch adnodd Addysg Oxfam, Seiclun Idai, i archwilio effeithiau catastroffig trychinebau, a'r modd y defnyddir cymorth i gefnogi goroeswyr. Mae'r adnodd hwn hefyd yn annog dysgwyr i feddwl yn feirniadol am yr hyn sy'n gwneud rhai pobl yn fwy agored i drychinebau nag eraill, a'r hyn y gellir ei wneud i wneud y sefyllfa'n decach.

[www.oxfam.org.uk/education/resources/cyclone-idai](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/cyclone-idai)

- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio gwefan Oxfam i ddarganfod rhagor am y materion yr ydym yn gweithio arnynt, ynghyd â'n gwaith mewn mwy na 90 o wledydd ledled y byd.

[www.oxfam.org.uk/what-we-do](http://www.oxfam.org.uk/what-we-do)

- Heriwch y dysgwyr i ddylunio poster neu ffeithlun i ddangos gwaith Oxfam neu elusen arall.

## Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.



## Gwybodaeth am y wlad

## Taflen adnoddau 1

Mae'r ffilm, Everybody eat, drink, earn and learn, yn cynnwys lluniau o nifer o'r gwledydd lle y mae Oxfam yn gweithio. Mae'r manylion i'w gweld isod:

### Pawb i Fwyta

Nithio grawn – Liberia

Cario bagiau mewn banc bwyd – Y Deyrnas Unedig

Cario cynhaeaf reis – Ynysoedd Philippines

Pot coginio – Liberia

Bara fflat – Irac

Bwyta reis – Ynysoedd Philippines

Bwyta bara a jam – Armenia

### Pawb i Ennill Cyflog

Barbwr – Irac

Ffermwr cucumerau – Irac

Dosbarthu cnau – Honduras

Gwnïo – Tanzania

Marchnad – Sierra Leone

Cyfrif arian 1 – Kenya

Cyfrif arian 2 – Ethiopia

### Y lluniau ar y diwedd

Plant yn curo dwylo – De'r Swdan

Plant yn gweiddi "Oxfam!" – Irac

### Pawb i Yfed

Llenwi â dŵr – Irac

Yfed 1 – De'r Swdan

Yfed 2 – Bangladesh

Yfed 3 – Y Deyrnas Unedig

Yfed 4 – Cambodia

Llenwi â dŵr 2 – Tanzania

Yfed 4 – Ethiopia

### Pawb i Ddysgu

Merch a llyfr 1 – Pacistan

Plant a llyfr/Merch wrth y bwrdd du – Haiti

Merch a llyfr 3 – Gwlad yr Iorddonen

Ystafell ddosbarth – Kenya

Merch yn astudio – Nepal

Merched yn y dosbarth – Pacistan

## Beth a fyddai'n digwydd pe ...?

## Taflen gweithgaredd 1

Darllenwch y rhestr ganlynol o gwestiynau. Dychmygwch sut y gallai'r digwyddiadau hyn effeithio ar eich bywyd pe byddent yn digwydd i chi. Trafodwch eich meddyliau yn eich grŵp.

Beth a fyddai'n digwydd pe ...?

1. ... byddai'n rhaid i chi dreulio dwyawr bob dydd yn casglu dŵr i chi a'ch teulu, i'w ddefnyddio ar gyfer yfed, golchi a choginio?
2. ... byddai yna 60 o blant yn eich dosbarth a dim ond un athro?
3. ... byddech chi a'ch teulu ddim ond yn gallu bwyta un pryd y dydd?
4. ... na fyddai eich rhieni'n gallu cael swyddi?
5. ... byddai'n rhaid i chi ddefnyddio dŵr budr o'r afon ar gyfer yfed, golchi a choginio?
6. ... na fyddai eich rhieni yn gallu fforddio'r ffioedd i'ch anfon i'r ysgol?
7. ... byddai eich rhieni yn dibynnu ar dyfu llyisiau i'w bwyta a'u gwerthu yn y farchnad, a hithau heb lawio am ddeufis?
8. ... byddai gan eich ysgol ddim ond un toiled ar gyfer 500 o blant?

## Meddwl am y canlyniadau

## Taflen gweithgaredd

### 2

- Dewiswch un o'r datganiadau Beth a fyddai'n digwydd pe ... ? a chwblhewch y frawddeg yn y blwch isod.
- 'Nawr ysgrifennwch baragraff i ddangos beth yr ydych yn meddwl, efallai, a fyddai effeithiau'r digwyddiad hwn ar eich bywyd. Beth, efallai, a fyddai effeithiau'r canlyniadau hyn? Sut yr ydych yn meddwl y byddech yn teimlo? Ceisiwch egluro pam, yn eich barn chi, y byddai hyn yn digwydd.

Beth a fyddai'n digwydd pe ... ?

Efallai y byddwch am ddefnyddio rhai o'r geiriau a'r ymadroddion hyn yn eich gwaith ysgrifennu:

- Rwy'n meddwl
- Rwy'n credu
- Byddai'n rhaid i mi
- Byddwn yn teimlo
- felly
- yna
- o'r herwydd
- o ganlyniad
- Rwy'n meddwl hyn oherwydd

## Taflen gweithgaredd 2

### PAWB I FWYTA – GHANA



**Cydnabyddiaeth y llun:** Adam Patterson/Oxfam

Mae Mary yn byw gyda'i theulu yng Ngogledd Ghana. Mae'n ffermwr, ac mae'n dibynnu ar dyfu cynydu i'w gwerthu a'u bwyta. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn ei gwneud yn fwy anodd tyfu bwyd, ac mae pethau'n mynd i waethygu. Mae glawiad yn mynd yn fwy anwadal a dwys, gyda chyfnodau o sychder a llifogydd bob yn ail. Yn y "tymor llwglyd", o fis Mehefin i fis Awst, nid oes gan hyd at dri chwarter y teuluoedd ddigon i'w fwyta.

Mae Oxfam yn helpu teuluoedd tebyg i deulu Mary i dyfu mwy o fwyd trwy roi cynnig ar ddulliau ffermio gwahanol. Maent hefyd yn ei gwneud yn bosibl i deuluoedd gael gafael ar fenthyciadau bach a mynediad at ffyrdd eraill o wneud arian, er enghraifft cadw gwenyn. Mae nifer o'r prosiectau hyn yn cefnogi menywod yn benodol gan nad ydynt yn aml yn cael yr un cyfleoedd i ennill bywoliaeth â dynion.

### PAWB I FWYTA – GWLAD GROEG



**Cydnabyddiaeth y llun:** Aubrey Wade/Oxfam

Mae Mastura (yn y benwisg frown) a'i theulu yn bwyta cinio mewn gwrsyll ffoaduriaid ar Ynys Lesvos yng Ngwlad Groeg. Mae yna lawer o deuluoedd yn y gwrsyll hwn sydd wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi. Roedd yn rhaid i Mastura a'i phlant adael eu cartref yn Affganistan ar ôl i'w teulu gael ei fygwth ac i ŵr Mastura fynd ar goll. Cyraeddasant y gwrsyll mewn cwch ar ôl cerdded am 40 diwrnod trwy Iran ac yna i arfordir Twrci.

Mae Oxfam wedi cefnogi dros 3,000 o bobl mewn chwe gwrsyll yn Lesvos trwy ddarparu bwyd, yn ogystal â phethau hanfodol eraill, er enghraifft dŵr glân, lloches, pecynnau hylendid a blancedi.

## Taflen adnoddau 3

### PAWB I YFED – IRAC



**Cydnabyddiaeth y llun:** Tommy Trenchard/Oxfam

Mae'r plant hyn yn byw mewn pentref bach yn Irac. Er eu bod yn cael hwyl yn y llun hwn, gall bywyd yma fod yn heriol. Mae llawer o deuluoedd yn Irac wedi gorfod ffoi o'u cartrefi oherwydd yr ymladd sy'n digwydd yn eu gwlad. Yn ogystal â gadael eu cartrefi, mae teuluoedd yn aml yn gorfod gadael ysgolion, swyddi, ffrindiau ac eiddo.

Mae'r pentref hwn, a oedd yn gartref i 40 o deuluoedd yn wreiddiol, wedi croesawu 170 o deuluoedd newydd sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi. Mae wyth o bobl ar gyfartaledd ym mhob teulu. Mae Oxfam yn cefnogi pobl yn y pentref gyda gwaith dŵr, tapiâu a thoiledau.

### PAWB I YFED – MYANMAR



**Cydnabyddiaeth y llun:** Dustin Barter/Oxfam

Mae'r plant hyn mewn ysgol ym Myanmar yn dysgu am bwysigrwydd golchi eu dwylo'n dda. Mae llawer o bobl yn y rhan hon o Myanmar wedi cael eu dadleoli (eu gorfodi i adael eu cartrefi) oherwydd gwrthdaro. Mae Oxfam wedi darparu cymorth, sy'n cynnwys pwmp dŵr, man golchi dwylo, thoiledau, citiau hylendid a hyfforddiant. Mae grŵp plant wedi cael ei sefydlu hefyd, i ddysgu eraill am hylendid a golchi dwylo.

Cyn i sefydliadau partner ac Oxfam ddarparu cymorth, nid oedd yna unrhyw ffynonellau dŵr yfed, cyfleusterau golchi dwylo na thoiledau yn yr ysgol. Byddai'r disgyblion yn mynd adref pe byddai arnynt angen mynd i'r toiled. Roedd yn amgylchedd budr iawn. Roedd y plant yn aml yn sâl, ond mae'n llawer gwell 'nawr, ac mae dolur rhydd yn brin iawn. Yn ogystal â dysgu sut i olchi eu dwylo'n iawn â sebon, erbyn hyn mae gan y disgyblion glipwyr ewinedd, brwsys gwallt a phast dannedd. Mae llai o blant yn colli'r ysgol ac maent yn llawer hapusach.

## Taflen adnoddau 4

### PAWB I ENNILL CYFLOG – TANZANIA



#### Cydnabyddiaeth y llun: Amy Christian/Oxfam

Daw Buchumi o Burundi, ond mae'n byw gyda'i deulu o chwech mewn gwersyll ffoaduriaid yn Tanzania. Bu'n rhaid iddynt adael eu cartref oherwydd yr ymladd a oedd yn digwydd yn eu gwlad.

Arferai Buchumi fod yn athro ysgol, ond bellach mae'n deiliwr. Mae Oxfam wedi helpu grwpiau o ffoaduriaid yn y gwersyll i ddechrau busnesau. Erbyn hyn, mae nifer o bobl yn deilwriaid yma. Maent yn rhannu'r elw o'u busnes rhyngddynt.

Dywed Buchumi:

"Am y tro, byddwn wrth fy modd yn parhau i deilwra, gan nad oes cyfle i mi addysgu. Rwy'n gofyn i Oxfam a fyddai'n bosibl cael rhagor o beiriannau yma; gan fod gennyf gefndir o addysgu, gallwn addysgu rhagor o fyfyrwyr i deilwra."

### PAWB I ENNILL CYFLOG – Y DEYRNAS UNEDIG



#### Cydnabyddiaeth y llun: Oxfam Cymru

Mae Rumi, o Gaerdydd, yn fam brysur i dri bachgen, ac mae ei gŵr yn gweithio'n llawn-amser. Yn 2017, dechreuodd feddwl am ddychwelyd i'r gwaith, ond ni wyddai lle i ddechrau.

Ymunodd Rumi â Sgiliau ar gyfer Bywyd, sef prosiect sy'n cael ei redeg gan Oxfam Cymru a Chanolfan Datblygu Cymunedol De Glanrafon i alluogi menywod yng Nghaerdydd i feithrin y sgiliau a'r hyder y mae arnynt eu hangen i gael gwaith boddhaol. Mae'r cymorth wedi cynnwys hyfforddiant, coetsio a lleoliadau gwaith gwirfoddol.

Dywedodd Rumi, "Mae dod i'r prosiect, a chael yr hyfforddiant yr wyf wedi'i gael, wedi fy helpu i feithrin fy hyder".

Yn dilyn lleoliad gwaith tri mis yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mae Rumi bellach wedi cael cynnig swydd â thâl yno.

"Rwy'n teimlo'n llawn cyffro o fod wedi cael swydd, ac rwy'n edrych ymlaen at ddechrau ar yr hyfforddiant. Rwyf wedi cyffroi fwyaf oherwydd yr oriau, a hynny am y bydd y swydd yn rhoi amser i mi allu mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu oddi yno," meddai Rumi.

## Taflen adnoddau 5

### PAWB I DDYSGU – IRAC



**Cydnabyddiaeth y llun:** Tegid Cartwright/Oxfam

Mae Amal yn 12 oed ac yn byw yn Irac. Mae Amal 'nawr yn mynd i'r ysgol eto. Fel llawer o blant eraill yn ei phentref, nid oedd Amal yn gallu mynd i'r ysgol am gyfnod hir oherwydd yr ymladd ofnadwy sydd wedi bod yn digwydd yn ei gwlad.

Dyweddodd Amal:

"Dydw i ddim wedi bod i'r ysgol ers dwy flynedd – rwy'n hapus iawn i fod yn ôl. Fy hoff wers yw celf – rwyf wrth fy modd yn peintio."

### PAWB I DDYSGU – MALAWI



**Cydnabyddiaeth y llun:** Corinna Kern

Mae Grace yn byw 15 km i ffwrdd o'i hysgol ym Malawi. Arferai gerdded am ddwyawr bob ffordd bob dydd er mwyn sicrhau ei bod yn cadw ei haddysg. Arferai'r daith gerdded wneud Grace yn agored i aflonyddu gan fechgyn ifanc, ac roedd pryderu am hyn yn effeithio ar ei gallu i ganolbwyntio a chyflawni yn y dosbarth.

Mae Oxfam wedi darparu beiciau i 30 o ferched mewn ysgolion ledled de Malawi. Ers cael y beic, gall Grace 'nawr fynd ar gyflymder heibio'r bechgyn a arferai aflonyddu arni, a threulio llai o amser yn teithio i'r ysgol a mwy o amser yn dysgu.

## Ymateb i sychder yn Somaliland adnoddau 6

## Taflen

### Y mater

Mae gan Somaliland hinsawdd letgras, ac mae sychder bob amser wedi bod yn gyffredin.

Wrth i hinsawdd y byd newid, mae digwyddiadau tywydd eithafol, megis sychder a llifogydd, yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn amlach. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cafwyd sychder hirfaith yn Somaliland, sydd wedi arwain at effeithiau dinistriol.

Mae llawer o'r bobl yn Somaliland yn fugeilwyr crwydrol, ac maent yn dibynnu ar eu da byw am laeth a chig, ac i wneud bywoliaeth. Mae sychder yn achosi i gnydau fethu a gwartheg farw, tra bod diffyg dŵr glân yn cynyddu'r risg o golera a chlefydau eraill.

### Her eich grŵp

Rydych yn dod o Somaliland ac yn gweithio i sefydliad bach sydd wedi'i leoli yn y brifddinas, Hargeisa. Rydych yn gweithio gydag Oxfam i roi cymorth i bobl yn eich gwlad i'w hamddiffyn eu hunain rhag sychder yn y dyfodol.

### Sut y gellid datrys y problemau hyn?

- Pan fydd dŵr yn brin, mae'n rhaid i bobl ddibynnu ar ba ddŵr bynnag y gallant ddod o hyd iddo, hyd yn oed os yw'n fudr. Gall hyn wneud pobl yn sâl.
- Mae gan rywfaint o'r dŵr gynnwys halen uchel ac nid yw'n ddiogel i'w yfed.
- Mae llawer o bobl yn Somaliland yn fugeilwyr crwydrol, yn symud o gwmpas i ddod o hyd i fwyd a dŵr i'w da byw. Mae'n aml yn anodd cyrraedd y cymunedau bach, ynysig hyn.
- Mae'r hinsawdd yn newid, gan wneud y glawogydd yn Somaliland yn fwy anrhagweladwy, a sychder yn fwy tebygol.

### Cofiwch ...

- Mae mwyafswm y gwaith datblygu yn cael ei wneud gan y cymunedau eu hunain, ac felly mae'n bwysig manteisio i'r eithaf ar wybodaeth, arbenigedd a sgiliau lleol.
- Yr atebion syml, yn aml, yw'r rhai mwyaf effeithiol.

### Ffeil Ffeithiau

**Enw:** Somaliland

**Prifddinas:** Hargeisa

**Daearyddiaeth:** Er na chaiff ei chydabod yn wlad yn rhyngwladol, mae Somaliland yn wladwriaeth annibynnol hunanddatganedig yn nwyrain Affrica.

**Arian Cyfred:**

Swllt Somaliland

**Prif ieithoedd:**

Somalieg, Arabeg, Saesneg

**Poblogaeth:**

3.5 miliwn

**Incwm cyfartalog y pen:**

\$347 UDA (y Deyrnas Unedig yn \$42,491)

**Ffynonellau data:**

[www.bbc.co.uk/news/world-africa-14115069](http://www.bbc.co.uk/news/world-africa-14115069)

[www.worldbank.org/cy/news/press-release/2014/01/29/new-world-bank-gdp-and-poverty-estimates-for-somaliland](http://www.worldbank.org/cy/news/press-release/2014/01/29/new-world-bank-gdp-and-poverty-estimates-for-somaliland)

[data.worldbank.org](http://data.worldbank.org)

**Ffynhonnell y ddelwedd:**

[https://en.wikipedia.org/wiki/Somaliland#/media/File:Somaliland\\_\(ortho\\_graphic\\_projection\).svg](https://en.wikipedia.org/wiki/Somaliland#/media/File:Somaliland_(ortho_graphic_projection).svg)



Un ffordd y mae Oxfam yn ymateb yw trwy ddarparu hidlwyr dŵr fel bod gan y bobl ddŵr diogel, glân i'w yfed.

**Cydnabyddiaeth y llun:** Dustin Barter/Oxfam



## Ymateb i ddaeargryn yn Indonesia

### Y mater

Ar 28 Medi 2018, cafodd Indonesia ei tharo gan ddaeargryn 7.5 enfawr a sbardunodd tswami a thirlithriadau, gan achosi dinistr helaeth. Credir bod y daeargryn wedi effeithio ar 1.5 miliwn o bobl, a gwyddys bod mwy na 2,000 o bobl wedi marw.

### Her eich grŵp

Rydych yn gweithio i un o sefydliadau partner Oxfam yn Indonesia. Rydych wedi eich lleoli yn nhalaith Canol Sulawesi, lle cafodd y daeargryn effaith fawr. Rydych wedi bod yn helpu i achub pobl a oedd yn gaeth dan y rwbel. 'Nawr mae angen i chi helpu'r goroeswyr.

### Sut y gallech fynd i'r afael â'r problemau canlynol yn y chwe mis cyntaf ar ôl y daeargryn?

- Mae angen lloches ar bobl. Mae cartrefi llawer o bobl wedi'u dinistrio. Maent eisoes wedi adeiladu pebyll ag unrhyw ddeunydd sbâr a oedd ar gael, ond mae'r rhain yn simsan ac yn gollwng.
- Un o anghenion mwyaf sylfaenol pobl yw bwyd: mae ar y bobl eisiau bwyd. Yn y dinasoedd, nid ffermwyr yw mwyafrif y bobl, felly maent yn dibynnu ar brynu bwyd.
- A phan fydd trychinebau'n taro, mae deiet, glanweithdra a gofal iechyd gwael yn golygu bod clefydau'n lledaenu'n gyflym.
- Mae llawer o bobl wedi colli eu bywoliaeth a'u ffynhonnell incwm – mae busnesau wedi cael eu difrodi a chnydau wedi'u dinistrio. Mae'n annhebygol y bydd gan y bobl sy'n byw mewn tlodi yswiriant neu gynilion i ddibynnu arnynt pan fydd trychineb yn taro.

### Cofiwch ...

- Gallech gynnig '*arian parod am waith*'. Mae hyn yn golygu talu goroeswyr i wneud gwaith ailadeiladu, er enghraifft clirio rwbel ac atgyweirio ffyrdd. I oroeswr, mae'r cyfle i ennill arian yn golygu'r cyfle i ailadeiladu ei fywyd. Ar ben hynny, os oes gan bobl arian parod i'w wario, mae'n golygu y bydd eraill yn elwa pan fvddant vn ei wario.

## Taflen adnoddau 7

### Ffeil Ffeithiau

**Enw:** Indonesia

**Prifddinas:** Jakarta

**Daearyddiaeth:**

Mae Indonesia yn cynnwys mwy nag 17,000 o ynysoeddy'n gorwedd rhwng Cefnfor India a'r Cefnfor Tawel yn Ne-ddwyrain Asia.

**Prif iaith:**

Indoneseg

**Poblogaeth:**

268 miliwn

**Incwm cyfartalog y pen:**

\$3,894 UDA (y Deyrnas Unedig yn \$42,491)

Ffynhonnell y Data: [data.worldbank.org](http://data.worldbank.org)

Ffynhonnell y

ddelwedd: [commons.wikimedia.org/wiki/File:Indonesia\\_lorthographic\\_projection.svg](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Indonesia_lorthographic_projection.svg)



Menyw yn cael lloches frys.

**Cydnabyddiaeth y llun:** Irwan

Firdaus/Oxfam



Plant yn Sulawesi yn dysgu am bwysigrwydd golchi dwylo a hylendid da.

**Cydnabyddiaeth y llun:** Rosa

Panggabean/OxfamAUS

## Cardiau gweithredu

## Taflen gweithgaredd 3

Pa gamau y gallech eu cymryd i helpu i ddod â thlodi i ben? Gweithiwch yn eich grŵp i dorri allan a graddio'r syniadau hyn yn nhrefn pa mor 'dda' yr ydych yn meddwl yw'r cam gweithredu. Gallech ddisodli un o'r camau gweithredu hyn â'ch syniad eich hun trwy ddefnyddio'r blwch gwag.

<p><b>Dewch a phrynwch yn eich siop Oxfam leol</b></p> <p>Mae hyn yn helpu i godi arian ar gyfer Oxfam. Mae Oxfam yn defnyddio'r arian hwn i gynorthwyo pobl i newid eu bywydau er gwell.</p> <p>Mae aildefnyddio pethau hefyd yn well i'r amgylchedd.</p>	<p><b>Prynu cynhyrchion sydd â'r nod Masnach Deg</b></p> <p>Mae Masnach Deg yn ffordd o wneud masnach yn deg, fel bod tyfwyr deunyddiau crai, sef yn aml y bobl sy'n byw mewn gwledydd tlotach, yn cael pris teg am eu gwaith. Mae hyn yn golygu bod ganddynt fwy o arian i ofalu amdanynt eu hunain a'u teuluoedd.</p>	<p><b>Gweithredu dros yr hinsawdd</b></p> <p>Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl 'nawr, a'r cymunedau tlotaf sy'n cael eu taro galetaf.</p> <p>Mae yna lawer o ffyrdd y gallwn fynd ati i weithredu – p'un ai trwy leihau ein hól traed carbon ein hunain neu drwy annog llywodraethau a busnesau i wneud mwy.</p>
<p><b>Cyfrannu i'ch banc bwyd lleol</b></p> <p>Mae tua 14 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn tloti – mae hynny'n fwy nag un o bob pump.</p> <p>Mae banciau bwyd yn darparu bwyd i'r rhai sy'n ei chael yn anodd prynu digon i'w fwyta ac osgoi newyn.</p>	<p><b>Codi arian i helpu i wella bywydau pobl</b></p> <p>Cynnal digwyddiad noddedig, cynnal arwerthiant pobi, neu drefnu diwrnod dim gwisg ysgol. Cyfrannwch yr arian yr ydych yn ei godi i elusen sy'n gweithio i ddod â thlodi i ben.</p>	<p><b>Cynyddu ymwybyddiaeth</b></p> <p>Dywedwch wrth eraill beth yr ydych wedi'i ddysgu am dlodi a gwaith elusennau tebyg i Oxfam. Siaradwch â ffrindiau a theulu, cyflwynwch wasanaeth, dyluniwch bosteri, ysgrifennwch bostiad blog, neu addysgwch ddsbarth arall.</p>
<p><b>Ymgyrch</b></p> <p>Gofynnwch i'ch AS sicrhau bod y llywodraeth yn gwneud mwy i helpu i ddod â thlodi i ben – yn y wlad hon ac mewn gwledydd eraill.</p> <p>Gallech ysgrifennu llythyrau neu wahodd eich AS i ddod i'ch ysgol.</p>	<p><b>Dysgu rhagor am dlodi a'r modd i ddod â thlodi i ben</b></p> <p>Gallech ofyn i'ch athro eich helpu i ddysgu rhagor am dlodi a'i achosion.</p> <p>Gwylwch y newyddion. Ewch i wefan Oxfam. Gofynnwch gwestiynau.</p>	<p><b>Eich syniad</b></p>



